



Gwelliannau i gyffordd blaenoriaeth

New/ Improved crossing point

Pwynt croesfan newydd/gwell

Lledu llwybr troed

Tacluso llwybrau troed

Ailwynebu

Pwyntiau diddordeb

Llwybr 1

Llwybr 2

Mae'r lluniau hyn wedi cael eu cynhyrchu gan gyfeirio at y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015. Sylwer bod y rhain yn luniau cam cyn adeiladu a dylent fod yn destun rheoli risg dylunio pellach fel bo'r angen yn unol â Rheoliad 9. Mae angen gwneud gwaith dylunio manwl cyn dechrau unrhyw waith.

Foursquare, GeoTechnologies, Inc, METI/NASA, Cyfranwyr Mapiau Cymunedol USGS, Esri UK, Esri, HERE, Garmin, Geoland, FEMA, Intermap a'r gymuned defnyddwyr GIS, Esri NCEAS, NLS, OS, NMA, Geodatastyrelsen, Rijkswaterstaat, GSA, Ffynonellau: Esri, Airbus DS, USGA, NGA, NASA, CGIAR, N Robinson

PJA
8 Brewer Street
Sgwâr Hilton
Manceinion
M1 2EU
T. 0161 242 1162

CLEIENT

CYNGOR SIR Y FFLINT

PROSIECT

LLWYBRAU MWY DIOGEL MEWN CYMUNEDAU TREFFYNNON

TEITL

ARGYMHELLION DYLUNIO MYNEGOL LLWYBR 2

| RHIF FFIGWR | ADOLYGIAD |
|---|---|
| 01 | A |

| GRADDFATYNNWYD | ADOLGWYD | DYDDIAD |
|---|---|---|
| A3 @ 1:6,000 ML | CS | 06/06/2023 |

Hoffai Cyngor Sir y Fflint glywed eich barn am gynigion i sefydlu isadeiledd Teithio Llesol (cerdded a beicio) ar ddau o lwybrau yn Nhreffynnon. Mae Llwybr 1 yn mynd i Ysgol Gynradd Gwenffrwd ac Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi a Llwybr 2 yn mynd i Ysgol Treffynnon ac Ysgol Maes y Felin.

Mae'r cynigion yn seiliedig ar astudiaeth a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr yn 2022 lle nodwyd llwybrau allweddol i bob ysgol yn seiliedig ar ble mae'r disgyblion yn byw yn ogystal ag ymweld â'r safle, bwrw golwg ar broblemau y mae pobl sy'n cerdded a beicio yn eu hwynebu a chael trafodaethau gyda rhai o'r ysgolion.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gorolwg ar y cynigion ar gyfer **Llwybr 2 – Ysgol Treffynnon ac Ysgol Maes y Felin**

Mae Llwybr 2 yn creu llwybr i Ysgol Treffynnon ac Ysgol Maes y Felin o'r A5026 Whitford Street, Rue St Gregoire a Pen-y-Maes Road. Byddai'n cysylltu â Llwybr 1 y bwriedir ei greu yn Whitford Street a Victoria Place. Mae Pen-y-Maes Road yn llwybr allweddol i'r ysgolion ond mae'r amodau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn wael ar hyn o bryd gyda throedffyrdd cul neu golledig a chyffyrdd llydan. Mae'r cynigion yn cynnwys dwy groesfan newydd â signalau a gwelliannau i gyffyrdd ochrol ar hyd y llwybr er mwyn ei gwneud yn haws i gerdded, teithio ar olwynion a beicio.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gorolwg ar y cynigion a'r ymyriadau allweddol ar gyfer Llwybr 2, gan ddechrau o du'r gorllewin:

- Cael gwared ar y rheiliau gwarchod ar yr A5026 ger adeilad Cyngor Tref Treffynnon a chyffordd Ffordd Newydd i adlewyrchu gostyngiad yn y terfyn cyflymder o 30mya i 20mya;
- Cyflwyno dwy groesfan newydd â signalau ar A5026 a Pen-Y-Maes Road er mwyn galluogi cerddwyr i groesi'r ffordd yn haws a mwy diogel;
- Tynhau ffyrdd ochrol ac ychwanegu cyrbau is a phalmant botymog ar hyd Pen-Y-Maes Road er mwyn galluogi cerddwyr i groesi'n haws a mwy diogel;
- Ychwanegu cyrbau is a throedffordd ymhlyg ar draws y gilfach barcio bresennol ar Pen-y-Maes Road i'r gorllewin o gyffordd Pen-y-Maes Road/Bryn-y-Gwynt.

Disgwylir y bydd y gwelliannau arfaethedig yn galluogi mwy o ddisgyblion i gerdded, teithio ar olwynion a beicio i'r ysgol yn ogystal â chefnogi teithiau lleol eraill ar droed ac ar feic. Bydd hyn yn arwain at fanteision amlwg i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.